**Dog B:** Tabl sy'n dangos diddymiadau a diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol o ganlyniad i gychwyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf")

| Adran o'r Ddeddf | Disgrifiad | Deddfwriaeth bresennol | Diddymu/Diwygio | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| **Rhan 1 – Cyflwyniad** | | | | |
| | | | | |
| 1 | Trosolwg | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 2 - 4 | Termau allweddol | DGPhA 2000[1], adran 1 (ystyr "carer") | Diddymu | |
| | | | | |
| **Rhan 2 – Swyddogaethau Cyffredinol** | | | | |
| | | | | |
| 5 | Dyletswydd llesiant | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 6 | Dyletswyddau hollgyffredinol eraill: cyffredinol | DP 1989, adran 17(1) a (4A) ac adran 22(4)(a), (b) ac (c) a (5)(a) a (b) | Diwygio | Ni fydd adrannau 17 a 22 o Ddeddf 1989 bellach yn gymwys o ran Cymru ond byddant yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr.<br><br>Bydd y dyletswyddau hollgyffredinol yn adran 6(2)(a) a 6(4) o'r Ddeddf bellach yn gymwys yng Nghymru |
| | | | | |
| 7 | Dyletswyddau hollgyffredinol eraill: egwyddorion a chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 8 - 13 | Canlyniadau llesiant | Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, adran 8(1) | Dim newid | Gellir trin mesurau perfformiad neu dargedau perfformiad mewn cod a ddyroddir o dan adran 9 fel pe baent wedi eu pennu fel dangosyddion perfformiad neu safonau perfformiad o dan adran 8(1) o Fesur 2009 |
| | | | | |
| 14 | Asesiadau Poblogaeth | Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr | Diddymu | Mae adran 14 yn cynnwys dyletswydd i asesu anghenion |

[1] Am restr o fyrfoddau, gweler y nodyn ar ddiwedd y tabl

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | (Cymru) 2010 | | gofalwyr ac yn diwygio adran 40 o DGIG(C) 2006 fel bod dyletswydd i ystyried yr asesiad hwn wrth lunio neu adolygu strategaeth iechyd a llesiant |
| | | | | |
| 14A | Cynlluniau mewn ymateb i asesiadau poblogaeth | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | DS Mae adran 14A wedi ei mewnosod gan DLlCD 2015 |
| | | | | |
| 15 | Gwasanaethau ataliol | DP 1989, adran 17(1) ac Atodlen 2, paragraffau 6 a 7 | Diwygio | Ni fydd adran 17 o Ddeddf 1989 ac Atodlen 2 iddi bellach yn gymwys o ran Cymru ond byddant yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr. |
| | | | | |
| 16 | Mentrau cymdeithasol | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 17 | Gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy | DCCPhA 1970, adran 1<br><br>DP 1989, Atodlen 2, paragraff 1 | Diwygio<br><br>Diwygio | Ni fydd adran 1 o Ddeddf 1970 bellach yn gymwys i Gymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i Loegr mewn perthynas â gwybodaeth am wasanaethau i blant anabl<br><br>Ni fydd Atodlen 2 i Ddeddf 1989 bellach yn gymwys o ran Cymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr. |
| | | | | |
| 18 | Cofrestrau | DCG 1948, adran 29(4)(g)<br>DP 1989, Atodlen 2, paragraff 2 | Diddymu<br><br>Diwygio | <br><br>Ni fydd Atodlen 2 i Ddeddf 1989 bellach yn gymwys o ran Cymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr. |
| | | | | |
| **Rhan 3 – Asesu anghenion unigolion** | | | | |
| | | | | |
| 19 - 20 | Asesu anghenion oedolion | DGIGGG 1990 – adran 47(1)(a) | Diwygio | Mae adran 47 o Ddeddf 1990 wedi ei diwygio fel mai dim ond i asesiadau ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 y mae'n gymwys |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 21- 23 | Asesu anghenion plant | DP 1989, adran 17 ac Atodlen 2, paragraff 3 (pŵer i asesu plant mewn angen) | Diwygio | Ni fydd adran 17 o Ddeddf 1989 ac Atodlen 2 iddi bellach yn gymwys o ran Cymru ond byddant yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr. |
| | | | | |
| 24 - 27 | Asesu anghenion gofalwyr | DPA(GYCh) 1986, adrannau 3 ac 8<br>DPA(GYCh) 1986, adran 4<br><br>DG(CG) 1995, adran 1<br><br>DGPhA 2000, adrannau 1, 4, 6 a 6A<br>DG(CC) 2004 – adrannau 1 a 2 | Diwygio<br><br>Diwygio<br><br>Diwygio<br><br>Diddymu<br><br>Diddymu | Bydd adrannau 3 ac 8 o Ddeddf 1986 yn dal i fod yn gymwys yn yr Alban<br>Bydd adran 4 o Ddeddf 1986 yn dal i fod yn gymwys yn Lloegr mewn perthynas â phersonau anabl o dan 18 oed<br>Bydd adran 1 o Ddeddf 1995 yn dal i fod yn gymwys yn Lloegr at ddibenion penodol |
| | | | | |
| 28 - 31 | Asesiadau - atodol | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| **Rhan 4 – Diwallu Anghenion** | | | | |
| | | | | |
| 32 - 33 | Dyfarnu cymhwystra | Adran 47(1)(b) o DGIGGG 1990 | Diwygio | Mae adran 47 o Ddeddf 1990 wedi ei diwygio fel mai dim ond i ddiwallu anghenion am wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 y mae’n gymwys<br><br>Bydd meini prawf cymhwystra yn cymryd lle meini prawf mynediad teg at wasanaethau gofal mewn rheoliadau o dan adran 32 o’r Ddeddf |
| | | | | |
| 34 | Sut i ddiwallu anghenion | Pwerau i ddiwallu anghenion oedolion, plant a gofalwyr o dan y statudau a restrir isod | Fel isod | |
| 35 - 36 | Diwallu anghenion – oedolion | DCG 1948, adrannau 21 a 29<br>DPA(C) 1958, adran 3<br><br><br>DGIIC 1968, adran 45 | Diddymu<br><br>Diwygio<br><br><br>Diddymu<br><br>Diwygio | <br><br>Ni fydd adran 3 o Ddeddf 1958 bellach yn gymwys o ran Cymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | DCCPhA 1970, adran 2<br><br>Deddf y GIG (Cymru) 2006, adran 192 ac Atodlen 15 | Diddymu | Ni fydd adran 2 bellach yn gymwys i Gymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i Loegr mewn perthynas â gwasanaethau i blant anabl |
| | | | | |
| 37 - 39 | Diwallu anghenion – plant | DCCPhA 1970, adran 28A<br>DP 1989, adran 17 ac Atodlen 2 | Diddymu<br>Diwygio | Ni fydd adran 17 o Ddeddf 1989 ac Atodlen 2 iddi bellach yn gymwys o ran Cymru ond byddant yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr. |
| | | | | |
| 40 - 45 | Diwallu anghenion – gofalwyr | DGPhA 2000, adran 2 | Diddymu | |
| | | | | |
| 46 | Eithriad – personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo | DCG 1948, adran 21(1A) ac (1B)<br>DGIIC 1968, adran 45(4A) a (4B) | Diddymu<br><br>Diddymu | |
| | | | | |
| 47 | Eithriad – darparu gwasanaethau iechyd | DCG 1948, adran 21(8) a 29(6)(b)<br><br>DCG 1948, adran 26(1A), (1C) ac (1D)<br><br>DIGC 2001, adran 49 | Diddymu<br><br>Diddymu<br><br>Diddymu | Bydd adran 47(1) a (2) bellach yn gymwys<br><br>Bydd adran 47(6) a (7) bellach yn gymwys<br><br>Bydd adran 47(4) a (5) bellach yn gymwys<br>DS Mae gwaharddiad mewn perthynas â gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 wedi ei gadw drwy fewnosod adran 117B |
| | | | | |
| 48 | Eithriad – darparu tai etc | DCG 1948, adran 21(8) | Diddymu | |
| | | | | |
| 49 | Cyfyngiadau ar ddarparu taliadau | DCG 1948, adran 29(6) | Diddymu | |
| | | | | |
| 50 - 53 | Taliadau uniongyrchol | DIGC 2001, adran 57 | Diwygio | Ni fydd adran 57 bellach yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i awdurdodau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | DP 1989, adran 17A | Diwygio | lleol yn Lloegr mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol i bersonau o dan 18 oed sy'n gymwys i gael gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983<br>Ni fydd adran 17A o Ddeddf 1989 bellach yn gymwys o ran Cymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr. |
| | | | | |
| 54 - 55 | Cynlluniau Gofal a Chymorth | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 56 | Hygludedd gofal a chymorth | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 57 | Llety sy'n cael ei ffafrio | DIGC 2001, adran 54 (rheoliadau "Taliadau Ychwanegol")<br>Cyfarwyddiadau Dewis Llety | Diddymu<br><br>Diddymu | |
| | | | | |
| 58 | Gwarchod Eiddo | DCG 1948, adran 48 | Diddymu | |
| | | | | |
| **Rhan 5 – Ffioedd ac asesiadau ariannol** | | | | |
| | | | | |
| 59 - 67 | Codi ffioedd am ddiwallu anghenion | Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010<br>DCG 1948, adran 22<br>DIGCDNC 1983, adran 17(2A) | Diddymu<br><br>Diddymu<br>Diddymu | |
| | | | | |
| 68 | Cytundebau ar daliadau gohiriedig | DIGC 2001, adran 55 | Diwygio | Wedi ei chadw ar gyfer trefniadau trosiannol |
| | | | | |
| 69 | Codi ffi am wasanaethau ataliol | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 70 - 72 | Gorfodi dyledion | DIGCDNC 1983, adrannau 21, 22 a 24 | Diwygio | Wedi eu cadw ar gyfer trefniadau trosiannol |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 73 | Adolygiadau sy'n ymwneud â ffioedd | Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010, adran 11 | Diddymu | |
| | | | | |
| **Rhan 6 – Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya (gweler y tabl ar wahân – Dog A)** | | | | |
| | | | | |
| **Rhan 7 – Diogelu** | | | | |
| | | | | |
| 126 | Oedolion sy'n wynebu risg | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 127 | Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 128 | Dyletswydd i hysbysu – oedolion | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 129 | Datgymhwyso adran 47 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 | DCG 1948, adran 47 | Diddymu | |
| | | | | |
| 130 | Dyletswydd i hysbysu – plant | DP 1989, Atodlen 2, paragraff 4(2) | Diwygio | Ni fydd Atodlen 2 i Ddeddf 1989 bellach yn gymwys o ran Cymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr. |
| | | | | |
| 131 | Canllawiau ynghylch oedolion a phlant sy'n wynebu risg | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 132 - 133 | Bwrdd Diogelu Cenedlaethol | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 134 - 142 | Byrddau Diogelu | DP 2004, adrannau 31 - 34 (Byrddau Lleol Diogelu Plant) | Diddymu | |
| | | | | |
| **Rhan 8 – Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | |
| | | | | |
| 143 | Swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol | DGCALl 1970, adran 1A (swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) | Diwygio | Ni fydd DGCALl 1970 bellach yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i awdurdodau lleol yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Lloegr |
| | | | | |
| 144 | Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol | DGCALl 1970, adran 6 (cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol) | Diwygio | Ni fydd DGCALl 1970 bellach yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i awdurdodau lleol yn Lloegr |
| | | | | |
| 145 - 149 | Codau | DGCALl 1970, adran 7 a 7A | Diwygio | Ni fydd DGCALl 1970 bellach yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i awdurdodau lleol yn Lloegr |
| | | | | |
| 150 - 161 | Ymyriadau gan y Llywodraeth Ganolog | DGCALl 1970, adran 7D<br><br>DP 2004, adran 50A | Diwygio<br><br>Diddymu | Ni fydd DGCALl 1970 bellach yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i awdurdodau lleol yn Lloegr |
| | | | | |
| **Rhan 9 – Cydweithrediad a Phartneriaeth** | | | | |
| | | | | |
| 162 | Trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad – oedolion | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 163 | Trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad – plant | DP 2004, adran 25 | Diwygio | Mae adran 25 o Ddeddf 2004 wedi ei diwygio gan adran 163 o'r DGCLl |
| | | | | |
| 164 | Dyletswyddau penodol i gydweithredu – o fewn Cymru (oedolion)<br><br>Dyletswyddau penodol i gydweithredu – o fewn Cymru (plant) | Ddim yn gymwys<br><br>DP 1989, adran 27 | Ddim yn gymwys<br><br>Diwygio | <br><br>Ni fydd adran 27 o Ddeddf 1989 bellach yn gymwys i geisiadau o fewn Cymru neu geisiadau gan awdurdodau lleol Cymru i gyrff Lloegr ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i geisiadau o fewn Lloegr a cheisiadau gan awdurdodau lleol Lloegr i gyrff Cymru (gan |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gynnwys BILlau ac Ymddiriedolaethau'r GIG). |
| | | | | |
| 164A | Dyletswyddau penodol i gydweithredu – trawsffiniol (plant yn unig) | DP 1989, adran 27 | Diwygio | Gweler uchod<br>Bydd adran 164A sydd wedi ei mewnosod gan reoliadau Diwygiadau Canlyniadol yn gosod dyletswyddau ar gyrff Lloegr i gydweithredu â cheisiadau gan awdurdodau lleol Cymru. |
| | | | | |
| 165 | Hyrwyddo integreiddio | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 166 - 169 | Trefniadau partneriaeth | Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Rhan 3 | Diddymu | Mae darpariaeth ar gyfer Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd bellach wedi ei chynnwys mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 166 o'r Ddeddf |
| | | | | |
| 170 | Gwasanaeth mabwysiadu – trefniadau ar y cyd | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | Mae adran 170 yn mewnosod adran 3A yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (a gychwynnodd ar 1 Tachwedd 2014) |
| | | | | |
| **Rhan 10 – Cwynion, sylwadau a gwasanaethau eirioli** | | | | |
| | | | | |
| 171 - 178 | Cwynion a sylwadau am wasanaethau cymdeithasol | DIGC(ICS) 2003, adran 114(3) a (4) | Diddymu | Mae rheoliadau a wneir o dan adran 114 o Ddeddf 2003 yn cael eu trin fel pe baent wedi eu gwneud o dan adran 171 o'r Ddeddf a byddant yn parhau i fod yn gymwys. |
| | | | | |
| 179 - 180 | Cwynion am ofal cymdeithasol a gofal lliniarol preifat | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | DS Mae darpariaeth gyfatebol yn Lloegr wedi ei chynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol 1974, Rhan 3A (ymchwilio i gwynion am ofal cymdeithasol preifat) |
| | | | | |
| 181 - 183 | Gwasanaethau Eirioli | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| **Rhan 11 – Amrywiol a Chyffredinol** | | | | |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 184 | Ymchwil | DCG 1948, adran 30A<br>DP 1989, adran 83 | Diddymu<br>Diwygio | <br>Bwriedir diwygio adran 83 o Ddeddf 1989 fel mai dim ond i Loegr y mae'n gymwys a bwriedir mewnosod adran newydd 83A sy'n gymwys i Gymru. |
| | | | | |
| 185 - 188 | Personau mewn carchar, llety cadw ieuenctid neu lety mechnïaeth etc | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| 189 - 191 | Methiant darparwr | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | DS Mae adrannau 50 a 52 o Ddeddf Gofal 2014 (dyletswydd dros dro ar awdurdodau lleol Cymru) yn gymwys mewn perthynas â phobl sy'n cael gwasanaethau yng Nghymru a ddarperir gan awdurdod yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. |
| | | | | |
| 192 | Diwygio DCG 1948 | DCG 1948, adran 49 | Diwygio | Ni fydd adran 49 o Ddeddf 1948 bellach yn gymwys i awdurdodau lleol yng Nghymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys i awdurdodau lleol yn Lloegr. |
| | | | | |
| 193 | Adennill costau rhwng awdurdodau lleol | DCG 1948, adran 32(1) a (2)<br>DP 1989, adran 29(7) i (10) | Diddymu<br><br>Diwygio | <br><br>Ni fydd adran 29 o Ddeddf 1989 bellach yn gymwys o ran Cymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr |
| | | | | |
| 194 | Preswylfa arferol | DCG 1948, adran 24<br>DP 1989, adran 105(5) | Diddymu<br>Dim newid | <br>Bydd adran 105(5) o Ddeddf 1989 yn parhau i fod yn gymwys i ddyfarniadau o breswylfa arferol at ddibenion Deddf Plant 1989 ond bydd adran 194 yn gymwys i ddyfarniadau o breswylfa arferol at ddibenion y DGCLl. |
| | | | | |
| 195 | Anghydfodau ynghylch preswylfa arferol | DCG 1948, adran 32(3) i (6)<br>DP 1989, adran | Diddymu<br><br>Diwygio | <br><br>Caiff adran 30 o Ddeddf |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 30(2), (2A) a (2B) | | 1989 ei datgymhwyso o ran Cymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr. |
| | | | | |
| 196 - 200 | Cyffredinol | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |
| | | | | |
| **Yr Atodlenni** | | | | |
| | | | | |
| Atodlen A1 | Taliadau Uniongyrchol: Ôl-ofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | Mewnosodwyd Atodlen A1 gan adran 75 o Ddeddf Gofal 2014 |
| | | | | |
| Atodlen 1 | Cyfraniadau tuag at Gynhaliaeth Plant sy'n Derbyn Gofal | DP 1989, Atodlen 2, Rhan 3 | Diwygio | Ni fydd Atodlen 2 i Ddeddf 1989 bellach yn gymwys o ran Cymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr. |
| | | | | |
| Atodlen 2 | Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol | DGCALl 1970, Atodlen 1 | Diwygio | Ni fydd Atodlen 1 i DGCALl 1970 bellach yn gymwys o ran Cymru ond bydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr. |
| | | | | |
| Atodlen 3 | Ymchwilio i gwynion ynghylch gofal cymdeithasol a gofal lliniarol preifat | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | |

**Byrfoddau**

DCG 1948 – Deddf Cymorth Gwladol 1948

DPA(C) 1958 – Deddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1958

DGIIC 1968 – Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968

DGCALl 1970 – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970

DCCPhA 1970 – Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970

DIGCDNC 1983 – Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983

DPA(GYCh) 1986 – Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986

DP 1989 – Deddf Plant 1989

DGIGGG 1990 – Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990

DG(CG) 1995 – Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995

DGPhA 2000 – Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000

DIGC 2001 – Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001

DIGC(ICS) 2003 – Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003

DG(CC) 2004 – Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004

DP 2004 – Deddf Plant 2004

DGIG(Cymru) 2006 – Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

DLlCD 2015 – Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015